| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 9 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL YR EITEM** | ADRODDIAD AROLYGAETHAU ESTYN A AROLYGAETH GOFAL CYMRU |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad sydd wedi ei gyhoeddi gan Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn – Archwiliad ar y cyd (Tachwedd 2025) |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff arolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Cyhoeddwyd adroddiad adolygiad ESTYN/AGC ym mis Tachwedd 2025: Adroddiad. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r Pwyllgor hwn ym mis Chwefror 2026, roedd nifer o'r argymhellion eisoes yn cael sylw drwy'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i adroddiad *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.* Mae dogfennaeth y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb bellach ar gael hefyd ar wefan y Cyngor (ar ddiwedd y dudalen): Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

1.4. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys diweddariad ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion yr adroddiad Estyn / AGC. Bydd Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, yn mynychu'r cyfarfod i roi cyd-destun pellach i'r ymateb, ymhelaethu ar y cynnwys, ac ymateb i unrhyw gwestiynau yn ôl yr angen.